Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## 2021/22

Prifysgol orau *yn y DU* am gynaliadwyedd

people & planet UNIVERSITY LEAGUE 2022/23



## 2020/21 Adroddiad ar Gynnydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Amcan 1: Deall anghenion a hawliau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a sicrhau eu bod yn bwysig ac amlwg yng nghynllun ac yng nghynlluniau cyflenwi swyddogaethau'r Brifysgol

| Camau gweithredu | Y Cynnydd diweddaraf |
|---|---|
| **Hygyrch i Bawb** | |
| ***Hygyrchedd Digidol***<br>• Nodi staff allweddol sy'n paratoi gwybodaeth i'w chyhoeddi'n electronig a chynnig hyfforddiant priodol ar hygyrchedd.<br>• Llunio adroddiad a chynllun gweithredu gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd 2018 Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif. 2) ar gyfer gwella hygyrchedd digidol i'r holl ddefnyddwyr ar draws amgylcheddau digidol y Brifysgol. Dylid adrodd am adborth staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol perthnasol yn ôl i Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. | Ym mis Hydref 2021, fel rhan o drefn busnes newydd Pwyllgor Cydraddoldeb , Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), cyflwynwyd adroddiad Hygyrchedd Digidol.<br><br>Mae e-modiwl sydd yn fras atgynhyrchu cynnwys y sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth o Hygyrchedd Digidol ar gael ar 'Learning Pool' a chyhoeddir banc adnoddau 'InSite' gydag adrannau yn cynnwys:<br>• Ymwybyddiaeth gyffredinol<br>• Archwilio yn cynnwys canllawiau technegol ac adnoddau cofnodi<br>• Canllawiau ar gyfer Arferion Gorau<br>• Creu Datganiadau Hygyrchedd gan gynnwys templedi<br><br>Crëwyd Hwb Polisi sydd newydd ei lansio a'r holl ddogfennau wedi'u gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch a bod templedi addas ar gael.<br><br>Cyngor a chymorth parhaus ar gyfer ceisiadau unigolion am gymorth gan greu neu ddiwygio deunyddiau i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Ar ôl 2020/21 mae Hanfodion Digidol wedi parhau i fod yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer myfyrwyr newydd. |

| | |
|---|---|
| • Sefydlu sgiliau digidol i fyfyrwyr wella eu profiad fel defnyddwyr a datblygu ffyrdd o wella hygyrchedd digidol.<br><br>***Hygyrchedd Corfforol***<br>• Cynnal archwiliad hygyrchedd o'r holl adeiladau, gweithio'n agos gyda staff a myfyrwyr i adolygu eu profiad o hygyrchedd corfforol yn y Brifysgol ac i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ac unrhyw broblem cydraddoldeb a nodwyd. | Mae'n cynnwys e-wers Hanfodion Digidol sy'n cyflwyno systemau craidd ac yn ystyried pwysigrwydd diogelwch digidol a dwy sesiwn hyfforddi arall ar Teams ac ar reoli dogfennau.<br><br>Mae'r Brifysgol wedi parhau i sicrhau bod ei champws corfforol yn hygyrch. Yn 2021, parhaodd y Brifysgol ei phartneriaeth gyda AccessAble gan lunio 51 o Ganllawiau Manwl Mynediad. Mae'r rhain ar gael drwy wefan AccessAble neu drwy 'App' AccessAble. Yn ystod 2021/22, cyrchodd 992 o ddefnyddwyr y tudalennau hyn. Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol Grŵp Cynllunio Meistr Ystadau a Datblygu gyda'r bwriad o:<br>• Greu amgylcheddau heb eu hail gyda llesiant yn greiddiol iddyn nhw<br>• Buddsoddi'n sylweddol ymhob campws gyda ffocws arbennig ar un Cyncoed<br>• Buddsoddi mewn addysgu a dysgu, ac mewn cyfleusterau cymdeithasol a chymorth i fyfyrwyr<br>• Sicrhau bod cynaladwyedd yn ganolog i'n cynllunio, er mwyn ategu ein hymrwymiad i fod yn garbon sero net erbyn 2030 |
| **Cwricwlwm Cynhwysol** | |
| • Rhychwantu'r arferion cynhwysol cyfredol o fewn ysgolion er mwyn sefydlu ein meysydd o gryfder o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.<br>• Sefydlu canllawiau ar gyfer cynllun cynhwysol mewn deunyddiau addysgu.<br>• Amrywio'r portffolio er mwyn cynnig cyfle i ddysgwyr ac i ddatblygiad sefydliad | Mae cwricwlwm y Brifysgol yn gweithredu yn ôl set o 12 egwyddor (12 principles) sy'n ceisio sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ymhob elfen o'r cynllunio a'r cyflenwi. Mae'r tair egwyddor canlynol yn trafod y dull sefydliadol hwn o fynd ati:<br><br>Mae'r cwricwlwm yn amrywiol ac yn gynhwysol, yn cynrychioli ehangder y syniadau ysgolheigaidd yn y ddisgyblaeth, ac yn cydnabod ystod o farnau a safbwyntiau amrywiol. Mae'n gweithredu i gydnabod a chynnwys y rhan y mae gwahanol hiliau, rhywiau a diwylliannau yn ei chwarae o fewn pob disgyblaeth ac yn ehangu'r naratif i gydnabod na werthfawrogwyd yr holl wybodaeth yn yr un modd yn hanesyddol a'r bwriad ydy cynnwys safbwyntiau meddylwyr o ystod ehangach o brofiadau.<br><br>Mae'r Cwricwlwm yn Foesegol, yn cynnig sgôp ar gyfer Cenhadaeth Ddinesig, gan weithio gyda phartneriaethau a chymunedau ac ethos o Ehangu Cyfranogiad. Mae'n rhagweithiol wrth gydnabod ac wrth |

| | |
|---|---|
| | fynd i'r afael ag anghenion amrywiol y corff myfyrwyr, yn cynnwys cefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol, statws anabledd a llesiant meddyliol.<br>Mae'r Cwricwlwm yn ddeinamig a llyfn a di-dor, yn cydnabod amrywiaeth ein portffolio, ein partneriaeth a'n myfyrwyr. Mae Cwricwlwm Met Caerdydd yn adeiladu momentwm, gan ddatblygu drwy lefelau a chyfnodau'r astudiaeth i gynnig profiadau cynyddol heriol, gan adeiladu ar sylfaen cyflawniadau blaenorol a gwybodaeth flaenorol, a chynyddu cyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth.<br><br>Egwyddorion y cwricwlwm ydy'r cyd-destun ar gyfer dulliau'r Brifysgol o gymeradwyo, adolygu a monitro'i chwricwlwm. Mae Canllaw Cynllun Cwricwlwm y Brifysgol (The University's Curriculum Design Guide) yn datgan disgwyliadau'r Brifysgol ymhellach ar gyfer cynnwys Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn y cwricwlwm ac, ochr yn ochr â chyfres o weithdai cysylltiol, yn cynnig cymorth i dimau i sicrhau bod eu cwricwlwm yn gydnaws â'r egwyddorion hyn. Mae'r canllaw yn cynnig cymorth mewn meysydd megis cynllunio ar gyfer grwpiau amrywiol, rhyngwladoli'r cwricwlwm, amrywio'r cwricwlwm, egwyddorion cynllun cwricwlwm cynhwysol, Rhestr wirio 'Advance HE' ar gyfer ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y cwricwlwm, Asesu ac adborth cynhwysol, cyd-gynllunio cwricwlwm gyda'r corff myfyrwyr, cynllunio ar gyfer ymglymu a mapio taith myfyrwyr.<br><br>Yna, wrth ei ddilysu a'i adolygu, profir pa mor gydnaws ydy'r cwricwlwm â'r egwyddorion hyn drwy ystyried y cwricwlwm a gynlluniwyd yn erbyn yr egwyddorion uchod. Rhaid i'r tîm sy'n cynnig ddatgan, a'r panel cymeradwyo i holi, ar ystod o feysydd gan gynnwys asesu, adborth, aliniad gyda meincnodau cenedlaethol, mapio taith myfyrwyr, adnoddau a chymorth i fyfyrwyr. Rhaid i rai o'r cwestiynau penodol y mae rhaid i'r panel cymeradwyo eu hateb yn eu harchwiliad gynnwys:<br>○ A fydd myfyrwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r cyfarwyddyd sydd ar gael iddyn nhw?<br>○ Oes ystod addas ac amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu yn bodoli i ddiwallu anghenion amrediad amrywiol o fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai ag anableddau?<br>○ Oes trefniadau yn bodoli i sicrhau bod unrhyw anghenion ychwanegol myfyrwyr yn cael eu canfod ac a sefydlir addasiadau rhesymol ar gyfer eu diwallu? |

| | |
|---|---|
| <br><br><br><br><br>• Lansio modiwl hyfforddi Cydraddoldeb, ac Amrywiaeth ar gyfer myfyrwyr mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr | ○ A gynorthwyir dysgwyr gydag adnoddau llyfrgell priodol a hygyrch ac a amlinellir dolenni cyswllt â chylchgronau a llyfrau addas yn glir ar gyfer y cwrs a'r modiwl?<br><br>Dim ond pan fydd y panel yn hyderus yn y meysydd hyn y gellir cymeradwyo'r cwricwlwm.<br><br>Dim i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022. |
| **Delio â Chadw Myfyrwyr a Chanlyniadau** | |
| ***<u>Cadw</u>***<br>• Gyda chymorth y Swyddfa Strategaeth, cynnal dadansoddiad o ddata cadw y 5 mlynedd diwethaf o ran myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, yn benodol BAME, myfyrwyr anabl a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a riportio'r canfyddiadau<br>• Llunio cynlluniau gweithredu lefel ysgol i fynd i'r afael â materion cadw myfyrwyr a amlygwyd yn y dadansoddiad o'r data lle bo'n briodol. | Mae data cadw myfyrwyr y Brifysgol ar gael. Drwy gydol oes Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 gan gydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn barhau i ddadansoddi a riportio'r canfyddiadau a datblygu cynlluniau gweithredu perthnasol ar lefel y sefydliad ac ysgol. Bydd nodau siarter megis Athena SWAN a Siarter Cydraddoldeb Hil yn ategu'r gwaith hwn. |
| ***<u>Canlyniadau</u>***<br>• Gyda chymorth y Swyddfa Strategaeth, | Mae data cadw canlyniadau myfyrwyr a data chyflogaeth ar gael gan y Brifysgol. Drwy gydol oes Cynllun |

| | |
|---|---|
| cynnal dadansoddiad meintiol o ddata cadw y 5 mlynedd diwethaf o ran cyflawniad myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, yn benodol BAME, myfyrwyr anabl a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a riportio'r canfyddiadau<br>• Gyda chymorth y Swyddfa Strategaeth, cynnal dadansoddiad meintiol o ddata cyflogaeth/canlyniadau astudio y 5 mlynedd diwethaf o ran myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, yn benodol BAME, myfyrwyr anabl a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a riportio'r canfyddiadau<br>• Cynnal dadansoddiad meintiol o ddata i fod yn sail i waith ansoddol lleol gyda Phenaethiaid Ysgol er mwyn deall a llunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau yn y cyflawniad ar lefel Ysgol. | Cydraddoldeb Strategol 2020-24 gan gydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn parhau i ddadansoddi a riportio'r canfyddiadau a datblygu cynlluniau gweithredu perthnasol ar lefel y sefydliad ac ysgol. Bydd nodau siarter megis Athena SWAN a Siarter Cydraddoldeb Hil yn ategu'r gwaith hwn. |
| **Gwella Data Cydraddoldeb** | |
| • Codi ymwybyddiaeth y sefydliad a deall y rheswm dros gasglu data ar gydraddoldeb a pham mae hynny'n bwysig | Ar ôl diwygio'r ffurflen Asesu Effaith Cydraddoldeb a dogfennau cyfarwyddyd, amlygwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y Brifysgol yn casglu wybodaeth o ansawdd am gydraddoldeb yn gywir, a'i defnyddio i gynorthwyo ac ategu'r broses o wneud penderfyniadau.<br><br>Ym mis Chwefror 2022, fel rhan o drefn busnes newydd Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad adroddiad EDI UCAS ar Recriwtio Myfyrwyr yn 2021. Roedd yr adroddiad yn crynhoi cyfraddau ceisiadau, cynnig a derbyn Met Caerdydd o'u cymharu â holl Sefydliadau Cymru a'r DU o ran dangosyddion cydraddoldeb allweddol rhywedd, ethnigrwydd, POLAR4, ac anabledd. |

| | |
|---|---|
| • Ystyried y rhesymau dros gyfraddau isel datgelu o ran rhai nodweddion gwarchodedig gyda'r bwriad o gynyddu canran y staff a myfyrwyr sy'n datgelu data cydraddoldeb. | Dim byd i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022. |
| • Adolygiad trylwyr o systemau casglu data staff a myfyrwyr er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd wrth gasglu data ar gydraddoldeb. | Dim byd i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022 |
| • Ymgorffori data cydraddoldeb staff a myfyrwyr o fewn y dangosfyrddau Deallusrwydd Busnes sydd eisoes yn bodoli ac o fewn y rhai sydd yn datblygu er mwyn annog syniadau mwy cynhwysol | Fel yn y blynyddoedd blaenorol, datblygwyd dangosfyrddau deallusrwydd busnes y Brifysgol (Qlikview) yn barhaus. Mae cydweithio parhaus rhwng rhanddeiliaid allweddol gyda'r bwriad o ymgorffori data am gydraddoldeb ar draws meysydd gwahanol er mwyn annog dadansoddiad mwy cynhwysol yn ogystal â chynorthwyo gwahanol grwpiau o weithgorau ar draws Met Caerdydd. |
| **Datblygu Perthynas gyda Phwyllgorau Lleol** | |
| • Gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ganfod a gweithredu amrediad o weithgareddau a gwasanaethau i'w cynnig yn y Gymraeg a fyddai o fudd i gymunedau lleol.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda | Rydyn ni wedi parhau i atgyfnerthu ein perthynas gydag asiantaethau gan gynorthwyo gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg (Caerdydd Dwyieithog, menter iaith Cyngor Caerdydd), ysgolion Lleol, Y Mentrau Iaith, Yr Urdd, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).<br><br>Datblygodd Campws Cyntaf gyfres o weithdai blasu Addysgu a'r Blynyddoedd Cynnar, ar gael yn ddwyieithog ar-lein ac mewn hybiau cymuned ysgol. Yn ogystal, mae'r holl ddeunyddiau marchnata'r rhaglenni yn ddwyieithog. |

| | |
|---|---|
| sefydliadau lleol i geisio denu a chadw myfyriwr o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig.<br>• Datblygu nifer o brosiectau allgymorth, dan arweiniad myfyrwyr, i gynorthwyo a grymuso unigolion lleol a'n cymunedau.<br>• Gweithio gyda'n cymuned i gynnig ystod o ddigwyddiadau cymunedol sy'n defnyddio ehangder profiad y Brifysgol fel sail i'n hymrwymiad i amrywiaeth, rhyddid ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant.<br>• Alinio gyda'r bartneriaeth ranbarthol 'Ymgyrraedd yn Ehangach', i gynnig cyrsiau yn y gymuned ac ar y campws i godi uchelgeisiau a hyrwyddo'r symud ymlaen i Addysg Uwch. | Nod y Tîm Ehangu Mynediad ydy sicrhau bod pobol o bob oed, cefndir neu grŵp yn cael cyfle teg a chydradd i astudio ym Met Caerdydd gyda chymorth ac mae wedi ymrwymo i sicrhau y dylai pawb sy'n benderfynol, yn meddu ar y sgiliau a'r awydd i gyrchu Addysg Uwch gael gwneud hynny. Wrth weithio gyda chymunedau, cynnig cyfleoedd sy'n hygyrch a hyblyg i gyrchu ddysgwyr anhraddodiadol, mae ein rhaglen o gyrsiau 'O'r Gymuned i'r Campws' yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen o sesiynau blasu cychwynnol drwodd i fodiwlau Lefel 3 (10 credyd), gan arwain at Raglenni Sylfaen yma ym Met Caerdydd. Yn ystod 21/22 cyrhaeddodd prosiectau Ehangu Mynediad gyfanswm o 440 o ddysgwyr.<br><br>Ar hyn o bryd mae Ehangu Mynediad yn cynnig y cyrsiau am ddim i grwpiau a myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol ac i fyfyrwyr â nodweddion gwarchodedig. Maen nhw'n cael eu cynnig mewn lleoliadau yn y gymuned leol a'u nod ydy dileu rhwystrau a grymuso dysgwyr i symud ymlaen i AU. Ers COVID-19. Rydyn ni wedi gweithio yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru gan gynnig y mwyafrif o'n cyrsiau ar-lein yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2022, wrth i'r cyfyngiadau gychwyn llacio, roedden ni'n gallu symud ymlaen yn bwyllog i gynllunio rhai cyrsiau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau yn y gymuned, gan gychwyn ym mis Mawrth 2022.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau ar sut i wneud cais drwy gydol y flwyddyn i ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd i fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau achrededig ac sydd â diddordeb mewn cyfleoedd dilyniant. Cynorthwywyd y sesiynau hyn gan dimau Recriwtio Myfyrwyr a Gwasanaethau Myfyrwyr a deliwyd â materion megis sut i wneud cais am gyrsiau Sylfaen drwy UCAS, cyflwyno datganiadau personol a sut i wneud cais am Gyllid Myfyrwyr. Ar ôl cael ei ganslo'n llwyr yn 2020, cynhaliwyd Ysgol Haf Ehangu Mynediad ym Mehefin 2021, er i'r holl gyrsiau fod ar-lein oherwydd y cyfyngiadau COVID oedd yn dal i barhau. Gweithion ni mewn partneriaeth gyda Ymgyrraedd yn Ehangach (yn flaenorol) Campws Cyntaf (RWFC) i ategu'r cynnig hwn gyda rhai cyrsiau newydd ychwanegol. Yn ogystal, gweithiodd myfyrwyr o lysgenhadon drwy gydol y cyfnod hwn ac roedden ni'n gallu siarad ag oedolion o ddysgwyr am eu profiadau o astudio fel myfyrwyr ym Met Caerdydd.<br><br>Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022,cyrhaeddodd prosiectau Campws Cyntaf gyfanswm o 655 o ddysgwyr ac o blith y rhain roedd :<br>• 65 o bobl ifanc oedd wedi bod mewn Gofal<br>• 44 o ofalwyr di-dâl<br>• 417 o ddysgwyr o 2 gwintel gwaelod MALIC (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru -WIMD) |

| | |
|---|---|
| | Cynhaliodd a datblygodd Campws Cyntaf berthynas gyda'r gymuned drwy gyfnod clo COVID a thu hwnt, gan weithio gyda phartneriaid lleol i ddeall anghenion cyfnewidiol dysgwyr heb gynrychiolaeth ddigonol (yn bennaf, gofalwyr ifanc, pobl ifanc wedi bod mewn gofal, oedolion heb unrhyw gymhwyster L4 a dysgwyr o bob oed o 2 gwintel gwaelod MALIC).<br><br>Rhwng Mai a Gorffennaf  2021, cyflenwodd Campws Cyntaf dros 3200 o focsys potensial ar thema Cynaladwyedd a STEM+ Art i 14 o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd a Chasnewydd gyda charfan MALIC o dros 80% ac i bobl ifanc oedd wedi bod mewn gofal a gofalwyr ifanc a nodwyd gan Gyngor Caerffili, Barnardos Merthyr Tudful a'r YMCA. *News 'Boxes of Potential' delivering a fun way of reconnecting with learning (cardiffmet.ac.uk)*<br><br>Cynhaliodd tîm Campws Cyntaf brosiect mentora a gynorthwyodd dri unigolyn ifanc oedd yn ceisio lloches drwy Gyngor Sir Casnewydd. Llwyddodd y tri i wneud cais ac ymrestru ar raglenni Israddedig gyda chymorth ariannol priodol. Llogodd y prosiect fentoriaid o grwpiau â blaenoriaeth o blith corff y myfyrwyr ym Met Caerdydd i fod yn fodelau rôl a chefnogi a chynorthwyo oedolion o ddysgwyr, gofalwyr ifanc a phobl ifanc oedd wedi bod mewn gofal, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Recriwtiwyd y rhai i'w mentora o Gyngor Sir Casnewydd, Barnardos, Cyngor Sir Caerffili ac o bartneriaethau ehangu mynediad. Cynorthwywyd 19 o Bobl Ifanc oedd wedi bod mewn Gofal o Gasnewydd drwy 175 awr o fentora, gyda'r sir yn gweld cynnydd o 350% mewn nifer yn ymrestru mewn prifysgol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Caiff holl weithgareddau Campws Cyntaf eu marchnata tuag at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ddefnyddio modelau rôl a delweddau sy'n adlewyrchu at bwy yr ydyn ni'n anelu i weithio gyda nhw.<br><br>Datblygodd Campws Cyntaf nifer o raglenni allgymorth oedd wedi'u hanelu at unigolion lleol a'r gymuned i'w cynorthwyo a'u grymuso. Datblygodd Campws Cyntaf gwrs byr ar ysgrifennu creadigol ac animeiddio gyda llwybr dilyniant yn arwain i AU. Roedd y rhain wedi'u hanelu at oedolion o dan anfantais gyda'r canlyniad bod 25% o'r cyfranogwyr wedi llwyddo i ymrestru ar gwrs israddedig ym Met Caerdydd ynghyd ag eraill o'u ffrindiau yn ymglymu mewn y Tiwtor  rhaglenni eraill a gynhaliwyd ar draws y bartneriaeth. Ymhlith y rhaglenni eraill roedd CookStars a Dyddiau Chwaraeon gyda phobl ifanc iau oedd wedi bod mewn gofal a Gofalwyr ifanc er mwyn cynyddu eu hyder a datblygu eu sgiliau byw. |

| | |
|---|---|
| | O fis Mai tan fis Mehefin 2021, gweithiodd Campws Cyntaf gyda Dr Fiona Carroll o Ysgol Dechnolegau Met Caerdydd i gynnig gweithdai deniadol ar Godio Creadigol i ddisgyblion ysgolion cynradd gyda'r nod o annog a grymuso rhagor o ferched ifanc i ystyried pynciau STEM. Cynhaliwyd y prosiect mewn 10 o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr, ac mae 8 o'r rhain â thros 80% o ddisgyblion MALIC 1 a 2.<br><br>Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22 cydweithiodd Campws Cyntaf gydag Ysgol Dechnolegau Caerdydd a Chanolfan Roboteg Eureka i gynnig sesiynau deniadol i bob ifanc Ysgol Uwchradd St Illtyd. Ym mis Chwefror 2022, cydweithiodd Campws Cyntaf gyda Thaith Gŵyl Ysgrifenwyr y Gelli Gandryll (*Hay Festival Scribblers Tour)* i ddod â 4 egin awdur uchel eu canmoliaeth i'r campws. Roedd yr adborth yn syfrdanol o bositif, yn enwedig o gofio mai hwn oedd un o dripiau ysgol cyntaf roedd rhai o'r disgyblion hyn wedi'i brofi.<br>*"Mae Prifysgol Met Caerdydd yn lle gallwch chi fynegi a dilyn eich brwdfrydedd"*<br>*"Mae Met Caerdydd yn lle i fynegi eich hun."*<br>*"Dydy Prifysgol ddim frawychus ag yr oeddwn i'n meddwl"*<br><br>Darparodd Ehangu Mynediad gyrsiau Paratoi ar gyfer IELTS Academaidd am ddim ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill gan gynnwys ceiswyr lloched a ffoaduriaid drwy gydol y flwyddyn i helpu wella eu sgiliau Saesneg hyd at gyfwerth â Lefel 6.0 IELTS, ac felly yn eu galluogi i gyrchu cyrsiau israddedig neu ôl-raddedig yn y Brifysgol. Cynigiwyd y cyrsiau ar-lein yn ystod cyfnod cyfyngiadau COVID. Parhaodd Ehangu Mynediad i hyrwyddo a darparu gwybodaeth ar y Wobr Nodded a gweithredu i annog ceisiadau ar gyfer y Wobr a bu rhai yn llwyddiannus yn ystod 2021/22.<br><br>Llwyddodd Ehangu Mynediad i gynorthwyo Wythnos Gyntaf Dysgu Oedolion Ar lein y Sefydliad Gwaith a Dysgu drwy ddarparu nifer o gyrsiau ar-lein. Hefyd, fe allon ni gynorthwyo'r Sefydliad Gwaith a Dysgu drwy enwebu dysgwyr a thiwtoriaid yn Seremoni Wobrwyo Ysbrydoli Dysgwyr o Oedolion a Thiwtoriaid. Ym mis Gorffennaf 2021, enillodd Dr Clare Elmi-Glennan, Uwch Ddarlithydd mewn Seicoleg ym Met Caerdydd, y Wobr Inspire!/Ysbrydoli! ar gyfer Tiwtoriaid (dolen: Dr Clare Elmi-Glennan – Sefydliad Dysgu a Gwaith) .<br><br>Mae gan Ehangu Mynediad nifer o bartneriaid ar draws y rhanbarth ac mae'n ymgeisio'n barhaus i weithio mewn partneriaeth gydag elusennau newydd, cyrff gwirfoddol a mudiadau cymunedol yn cynnwys grwpiau ymglymu rhieni sydd newydd eu datblygu o fewn ysgolion cymunedol lleol. Gohiriwyd y gwaith yng Ngharchar Prescoed yn ystod COVID gan nad oedd rhyngrwyd ar gael o fewn y carchar i gyflenwi cyrsiau ar-lein. |

| | |
|---|---|
| | Gweithion ni drwy gydol y flwyddyn gyda'r holl bartneriaid hyn yn y gymuned i sefydlu a mynychu gweithgareddau a digwyddiadau ymglymu allgymorth yn y gymuned a gynhaliwyd gan ein partneriaid yn y gymuned ar ôl iddyn nhw ail-gychwyn yn dilyn COVID. Cyn hyn, mynychon ni ddigwyddiadau ar-lein pan oedd cyfle i wneud hynny.<br><br>Cynorthwyodd Campws Cyntaf Wythnos Dysgu Oedolion Ar lein y Sefydliad Gwaith a Dysgu drwy gyfrannu at bodlediadau Dysgwyr o Oedolion a Gofalwyr Ifanc. Amlygwyd y gwaith gyda mentoriaid yma gan ddefnyddio Mentor o Ofalwr Ifanc yn defnyddio'i phrofiad o oresgyn rhwystrau yn cynnwys ei statws fel Gofalwr ifanc a'i hethnigrwydd.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng timoedd Ehangu Mynediad a Champws Cyntaf Ymestyn yn Ehangach drwy gydol y flwyddyn gan rannu gwybodaeth ac arbenigedd a nodi meysydd ar gyfer cydweithio.<br><br>Gweithiodd Campws Cyntaf gydag Ehangu Mynediad i ganfod cyfle gyda chyrsiau Blynyddoedd Cynnar ac Addysg. Dechreuodd hyn drwy gynnig cyrsiau blasu a gyllidwyd gan Campws Cyntaf yn ystod ysgolion haf ac arweiniodd llwyddiant y rhain at Ehangu Mynediad yn gweithio gyda thîm y Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu cwrs achrededig lefel 3. Gweithiodd Campws Cyntaf yn agos gydag Ehangu Mynediad i gynorthwyo dysgwyr oedd wedi pasio eu cyrsiau achrededig i gyrchu, gwneud cais ac i ymrestru ar gyrsiau Sylfaen Met Caerdydd. Cynorthwywyd cyfanswm o 11 o oedolion drwy 63 awr o fentora gyda 9 yn ymrestru ar gyrsiau Sylfaen. |
| **Llais Staff a Myfyrwyr** | |
| • Casglu tystiolaeth o strategaethau polisïau a phenderfyniadau'r Brifysgol sydd wedi ymglymu ac wedi ymgynghori ag ystod eang o staff a myfyrwyr | Cedwir holl ffurflenni Asesu Effaith Cydraddoldeb o ran strategaethau, polisïau a phenderfyniadau'r Brifysgol gan y Tîm Cydraddoldeb mewn ystorfa ganolog. Mae'r gwaith o sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i hymgorffori llawn yn hinsawdd y Brifysgol yn waith sy'n mynd ymlaen yn barhaus ond mae gwaith parhaus yn mynd ymlaen i sicrhau bod dogfennaeth cysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EIAs) yn mynd gyda phopeth drwy'r gwahanol Bwyllgorau/ Byrddau perthnasol sy'n gwneud y penderfyniadau. |

| | |
|---|---|
| • Rhagweithio i annog y defnydd o rwydweithiau staff fel modd o geisio adborth ar fentrau a pholisïau newydd gyda staff yn cael amser wedi'i neilltuo i ymglymu'n ystyrlon.<br><br>• Byddwn yn monitro a riportio cwynion, pryderon ac adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau er mwyn nodi meysydd i'w gwella. | Datblygwyd ffurflen newydd i Asesu Effaith Cydraddoldeb a dogfen ganllawiau newydd yn 2020/21 a pharhawyd eu gweithredu drwy gydol 2021/22. Mae'r dogfennau'n nodi y dylid cynnwys ymglymiad gweithredol gydag amrywiaeth o grwpiau ar draws y Brifysgol. Mae trafodaethau yn parhau ynglŷn ag amser a neilltuir i aelodau o rwydwaith staff i ymglymu'n ystyrlon.<br><br>Yn 2021/22, sefydlwyd Grŵp Adolygu Polisi Gwasanaethau Pobl (PSPRG) gan Wasanaethau Pobl fel mecanwaith i gydweithio gyda'n Hundebau Llafur i ddatblygu ac adolygu polisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiol Gwasanaethau Pobl. Gallai'r grŵp hwn hefyd ystyried polisïau a ddatblygwyd tu allan i Wasanaethau Pobl, lle ceir effaith neu gyfeirio at bolisi Pobl sydd eisoes yn bodoli gyda'r cynrychiolydd perthnasol. Bydd y grŵp yn sicrhau bod polisïau yn cael eu hystyried mewn partneriaeth gyda Chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur, Gwasanaethau Pobl, a lle bo'n briodol, gyda Phwyllgorau a Rhwydweithiau Staff ar draws y Brifysgol.<br><br>Bydd y PSPRG yn sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIA) trylwyr ac ystyrlon wedi'i hatodi i bob polisi y mae'r grŵp polisi yn eu hystyried ac na fydd unrhyw bolisi yn mynd ymlaen ar gyfer ymgynghoriad heb i'r grŵp fod yn fodlon bod materion cydraddoldeb wedi cael eu hamlygu a'u trafod, eu lliniaru neu eu hanfon at sylw'r VCEG.<br><br>Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22 , parhaodd y trafodaethau am yr amser a neilltuir ar gyfer ymglymiad staff â rhwydwaith ar draws pwyllgorau'r brifysgol a grwpiau gweithgor. Amlinellir yr amser a neilltuir ar hyn o bryd o fewn Protocol Rhwydwaith Staff.<br><br>Mae Gwasanaethau'r Gofrestrfa wedi parhau i lunio adroddiadau blynyddol ar gwynion myfyrwyr a gaiff eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd er mwyn bod yn sail i gynllunio gwasanaeth yn y dyfodol a chyfrannu at y datganiad CCAUC ar sicrhau ansawdd. Cymeradwywyd Adroddiad Cyffredinol ar Gwynion ac Ymddygiad achosion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2021 – 2022 gan y Bwrdd Academaidd ym mis |

| | |
|---|---|
| | Tachwedd 2022. Diben yr adroddiad hwn oedd amlygu unrhyw dueddiadau neu feysydd o bryder sylweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw, fel y gall Prifysgol Metropolitan Caerdydd wella ei rhaglenni, ei gwasanaethau cymorth a'i rheolaeth yn barhaus.<br><br>Ond caiff adroddiad wedi'i ddiweddaru ei lunio ar er mwyn i'r Bwrdd Academaidd i'w ystyried ar ddechrau 2023, adroddiad sy'n cynnwys data EDI yn benodol a gofnodwyd ar achwynion myfyrwyr (2021 -2022). Bydd yr Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth EDI ar achwynwyr o fyfyrwyr (yn cynnwys, Rhywedd, Oed, Ethnigrwydd, Anabledd, Siaradwyr Cymraeg, Statws Cartref/Rhyngwladol), a gwybodaeth am adroddiadau o honiadau o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, camdriniaeth, aflonyddu, bwlio ac erledigaeth ('camymddygiad myfyrwyr'). Cyflwynir dadansoddiad hefyd ar amrywiadau ar y flwyddyn academaidd flaenorol [2020 /2021].<br><br>Caiff y Polisi a Gweithdrefn Cwyno eu diwygio yn ystod y flwyddyn academaidd hon er mwyn adlewyrchu newidiadau yn Fframwaith Arferion Da SDA (OIA). Hefyd, er mwyn sicrhau ymlyniad i Ganllawiau'r DU ar Gamymddwyn Rhywiol ac Aflonyddu Hiliol. Bydd darpariaethau diwygiedig yn symleiddio'r modd y gall unigolion riportio problemau camymddygiad myfyrwyr. Caiff polisi/gweithdrefn newydd cwyno ar gyfer ymgeiswyr ei roi ar waith hefyd.<br><br>Gweithredwyd polisi / gweithdrefn newydd ar gyfer Panelau Achosion Risg (RAP) gan Wasanaethau'r Gofrestrfa er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn defnyddio dull 'seiliedig ar risg' o fynd ati i ddelio ag achosion myfyrwyr. Mae panelau RAP yn caniatáu system symlach o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau y gellir gweithredu camau rhagofalus yn syth er mwyn lliniaru risgiau a ddynodwyd. Dyfarnwyd "Cyfraniad Rhagorol i Arferion Diogelu" i Reolwr Cwynion ac Ymddygiad y Brifysgol gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro am weithredu gweithdrefn RAP.<br>Yn dilyn ail-strwythuro Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2020/21 a datblygiad trefn busnes nwydd, mae'r pwyllgor nawr yn derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion staff a fydd hefyd yn cynnwys ac ystyried gwybodaeth am gydraddoldeb lle bo'n briodol, h.y. honiadau o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, camdriniaeth, bwlio ac erledigaeth. Cyflwynwyd y cyntaf o'r adroddiadau hyn yn ystod y |

| | |
|---|---|
| • Cyllid Rhwydwaith Staff ar gael ar gyfer holl rwydweithiau staff cyfredol ac ar gyfer darpar rwydweithiau.<br><br>• Parhau i gynorthwyo Rhwydweithiau Staff; Rhwydwaith Menywod; Rhwydwaith LGBTQ+, Rhwydwaith yr Anabl a Rhwydwaith BAME Ystyried datblygiad Rhwydweithiau staff; Rhwydwaith Rhyngwladol a Rhwydwaith Rhyng-grefyddol<br><br>• Sefydlu Cyfarfod Blynyddol Cadeiryddion Rhwydwaith Staff | flwyddyn academaidd 2021/22.<br><br>Mae clustnodi cyllid yn dal i gael ei ystyried ar gyfer rhwydwaith staff. Ar hyn o bryd, darperir cyllid yn uniongyrchol drwy'r Tîm EDI.<br><br>Mae'r Tîm EDI wedi parhau i gynorthwyo'r Rhwydweithiau Staff ym Met Caerdydd, drwy gyllid priodol lle bo'n bosibl yn ogystal â sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ymhellach o fewn hinsawdd y Brifysgol. Yn gyfredol, mae 6 rhwydwaith staff:<br>• BAME<br>• LGBTQ+<br>• Anabl<br>• Rhyngwladol<br>• Menywod<br>• Rhwydwaith yr Iaith Gymraeg<br><br>Ni sefydlwyd cyfarfod blynyddol ffurfiol ond drwy gydol y cyfnod, fe wnaeth y Tîm Cydraddoldeb gwrdd â'r holl Gadeiryddion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw bryderon o Rwydweithiau yn enwedig o ran ymateb y Brifysgol i COVID 19 yn cael eu cofnodi a'u riportio drwy sianeli priodol y Brifysgol. |

## Amcan 2: Hyrwyddo ac ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn penderfyniadau'r Brifysgol

| Camau gweithredu | Y Cynnydd Diweddaraf |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Hyrwyddo ac ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn penderfyniadau'r Brifysgol** | |
| • Ymgorffori cydraddoldeb yn yr egwyddorion caffael sy'n weithredol a'u cadarnhau. Cytuno ar set o egwyddorion caffael i sefydliadau allu ymrwymo iddyn nhw; rhannu enghreifftiau o arferion da gyda chyflenwyr a chontractwyr cyfredol a darpar rai. | Mae modiwl ychwanegol yn cael ei ychwanegu o fewn adnodd hyfforddi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth sefydlu staff sy'n delio â phob agwedd o gydraddoldeb triniaeth yn ogystal ag agweddau ehangach o gaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol yng nghadwyni cyflenwi allanol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn gofyn i'w holl gyflenwyr fabwysiadu dull rhagweithiol o fynd ati i nodi a dileu unrhyw arferion cyflogaeth annheg neu arferion gwahaniaethol yn eu gweithrediadau eu hunain a rhai hynny yn eu cadwyni cyflenwi. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o unrhyw wahaniaethu yn y nodweddion gwarchodedig (oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) ac annog cyflenwyr i ymuno â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar 'Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi'. |
| • Datblygu proses ar gyfer casglu a riportio blynyddol ar amrywiaeth cynrychiolaeth pwyllgorau/ trefn lywodraethol fesul nodweddion gwarchodedig. | Mae trefniadau yn bodoli ar gyfer casglu data cydraddoldeb gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Caiff y data hwn ei riportio'n flynyddol i HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch). Mae gwaith ar y gweill cyn y flwyddyn academaidd 2022/23 i nodi cynrychiolaeth y pwyllgor yn flynyddol. |
| • Datblygu canllawiau ar sut i amrywio'r gynrychiolaeth ar bwyllgorau a pham ei bod yn bwysig a sut i sicrhau cynllun cynrychiolaeth cyfarfodydd cynhwysol. | Nodir cyfansoddiad pwyllgorau megis VCEG, Y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd yn y cylch gorchwyl fesul rôl. Cafwyd gwelliannau yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws y pwyllgorau hyn ond mae angen gwaith pellach. |
| • Adolygu'r ffurflen a'r canllawiau cyfredol ar Asesu Effaith Cydraddoldeb (EIA), cynnwys ystyriaethau economaidd-gymdeithasol (dyletswydd | Yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/21 lluniwyd ffurflen newydd i Asesu Effaith Cydraddoldeb a dogfen ganllawiau i gynorthwyo staff. Mae'r rhain ar gael ar dudalennau gwefan EDI mewnol y staff. Mae'r tîm EDI wedi cychwyn cynnig hyfforddiant er mwyn amlygu pwysigrwydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. |

| | |
|---|---|
| ofynnol yng Nghymru), a'u hymgorfforí'n llawn ym musnes y Brifysgol a'u cyfleu ar draws y Brifysgol. | |
| • Sicrhau bod iaith gynhwysol yn cael ei defnyddio ymhob polisi newydd a diwygiedig yn y Brifysgol | Dim i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022. |
| • Monitro gweithrediad Cod Ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) y Brifysgol er mwyn sicrhau tegwch a chynhwysiant yn natblygiad cyflwyniadau REF | Dim i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022. |
| • Sicrhau mai'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd â throsolwg o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn galluogi'r pwyllgor i ymglymu'n weithredol ac ymgynghori â nhw ar ddatblygu polisi a strategaeth, a'u cynghori ar y cynnydd a wneir ar ddiwallu'r camau gweithredu. | Yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-21 ail-strwythurwyd Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyflenwi i fod yn Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor datblygwyd trefn busnes i'w ddefnyddio yn ystod oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. |
| • Gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr a'r Undeb Llafur i gyflwyno ac adolygu polisïau a gweithdrefnau gan sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ystyriaeth briodol bob amer. | Mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr a'r Undebau Llafur i gyflwyno ac adolygu polisïau a gweithdrefnau. Mae hyn wedi ymestyn i gynnwys cynrychiolwyr o Rwydwaith Staff. Mae cyflwyno Grŵp Adolygu Polisi wedi cynorthwyo i ddatblygu'r gwaith hwn. |

## Amcan 3: Hyrwyddo a datblygu amgylchedd cefnogol a theg

| Camau Gweithredu | Y Cynnydd Diweddaraf |
|---|---|
| | |
| • Adolygu a gweithredu'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Mynd i'r Afael ag Aflonyddu Hiliol: Prifysgolion yn cael eu herio yn gyntaf drwy nodi ymwybyddiaeth gyfredol o'r broses achwyno , dealltwriaeth ohoni a'r hyder ynddi ymhlith staff a myfyrwyr | Ym mis Mawrth 2021, penododd y Brifysgol Gydlynydd Prosiect EDI. Byddai'r rôl yn hanfodol i alluogi'r Brifysgol i weithredu argymhellion yr EHRC (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) a Phrifysgolion y DU yn ogystal â diwallu themâu craidd gweithgaredd a amlinellwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Met Caerdydd, h.y. datblygu cydraddoldeb ar gyfer ei staff a myfyrwyr BAME, a'i chydnabod yn y pen draw drwy gais llwyddiannus ar gyfer Siarter Cydraddoldeb Hiliol.<br><br>Ym mis Medi 2021, symudodd Gweithgor Cydraddoldeb Hiliol i mewn i Gyfnod Dau o'r prosiect, yn ffocysu ar weithredu argymhellion Cyfnod Un. Arweiniodd y Cydlynydd Prosiect EDI gychwyniad yr ail gyfnod hwn o'r gwaith, yn cynnwys dynodi a rheoli gwahanol ffrydiau gwaith a cherrig milltir, ymglymiad rhanddeiliaid a gwasanaethu Bwrdd y Prosiect a gwahanol is-grwpiau.<br><br>Rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd 2021, cymerodd y Brifysgol ran ym mhrosiect 'Race Access' a Llwyddiant Cydweithredol. Rhaglen gwella Cymru gyfan a gyllidwyd gan CAAUC oedd hon i ddatblygu cydraddoldeb hiliol o fewn addysgu uwch. Drwy gyfres arloesol o weithdai, setiau cynllunio camau gweithredu ac ymgynghori, cynorthwywyd y Brifysgol i lunio cynllun gweithredu i ddatblygu cydraddoldeb hiliol. Gyda'i gilydd, fel sector roedd cyfle i ystyried ac arwain datblygiad arferion gorau o fewn addysgu uwch Cymru.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu safbwynt Prifysgol Metropolitan Caerdydd o ran Argymhellion Prifysgolion y DU yn dilyn cyhoeddi eu hadroddiad Taclo Aflonyddu Hiliol mewn Addysg Uwch ym mis Hydref 2020 i'r Pwyllgor EDI ym mis Rhagfyr 2021, gan ddarparu sylwadau ar bob un o'r argymhellion yn ogystal â chysylltu â'n gwaith ar gydraddoldeb hiliol i gynnig darlun cyffredinol o ble rydyn ni wedi cyrraedd yn y gwaith hwn. |
| • Mabwysiadu dull traws Prifysgol o fynd ati yn unol ag argymhellion Newid Hinsawdd Prifysgolion y DU, gan weithio tu hwnt i'r gofynion deddfwriaethol a chyfarwyddyd gan | Ym mis Medi 2021 ail-lansiwyd ein hymgyrch dan arweiniad Myfyrwyr sef '#NotAnExcuse'. Lansiwyd yr ymgyrch hon yn swyddogol ar 1 Chwefror 2021 yn unol ag wythnos Ymwybyddiaeth o Drais Rhywiol ac Ymosodiad Rhywiol. Yn ystod yr adeg hon ac wrth symud ymlaen, rydyn ni'n gofyn i bawb sefyll i fyny a chyfleu'r un neges, sef nad oes unrhyw esgus (#NotAnExcuse). Crëwyd teitl yr ymgyrch '#NotAnExcuse' gan fyfyrwyr Met Caerdydd, gan fod hon |

| | |
|---|---|
| lunio camau i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, yn cynnwys rheoli cwynion am gamymddwyn rhywiol a mentrau atal rhagweithiol. | yn neges gyson yn ystod fforymau ein myfyrwyr, yr ydyn ni'n eu cynnal mewn partneriaeth gyda Llwybrau Newydd, sy'n cynnig gwasanaethau cymorth ar gyfer argyfwng treisio a cham-drin rhywiol. Roedden ni'n awyddus i'r cynnwys ddod yn uniongyrchol o'n poblogaeth er mwyn darparu cysylltiad rhwng yr ymgyrch, y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Roedd y fforymau hyn yn llawn gwybodaeth am y ffaith nad ydy cymdeithas wedi datblygu llawer dros y blynyddoedd, gyda stereoteipiau hen ffasiwn megis 'dim ond i fenywod mae hyn yn digwydd' a 'mae camymddygiad rhywiol bob amser yn gorfforol' yn dal yn amlwg ymhlith myfyrwyr heddiw. Lluniwyd amrywiaeth o bosteri hyrwyddo, fideos a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. |
| | |
| • Diwygio polisïau ac arferion perthnasol y brifysgol, ymgorffori arferion llesiant a rhaglenni yn holl ddyletswyddau'r Brifysgol fel eu bod yn effeithio'n bositif ar bob ffurf o lesiant. | **Llesiant Myfyrwyr**<br>Rhwng Tachwedd 2020 a Mawrth 2021, cwblhaodd y brifysgol hunan-asesiad yn erbyn fframwaith 'StepChange' Prifysgolion y DU, sy'n cynorthwyo dull 'prifysgol gyfan' o fynd ati i ddelio gyda iechyd meddwl a llesiant staff a myfyrwyr. Datgelodd yr archwiliad feysydd o arferion da ym mhob adran, ond heb fod yn ddull cyson o fynd ati o ran delio gyda'r mater hwn. O ganlyniad, crëwyd cynllun gweithredu a Strategaeth ddiwygiedig o ran Llesiant a Iechyd gyda'r bwriad o sicrhau y gellid blaenoriaethu camau gweithredu. Disgwylir i'r cynllun gymryd 2-3 blynedd i'w gwblhau.<br><br>Parhaodd dull "prifysgol gyfan" 'StepChange' o fynd ati i wella iechyd a llesiant myfyrwyr a staff i ddatblygu drwy gydol 2021-22. Nodwyd nifer o feysydd â blaenoriaeth o ganlyniad i'r archwiliad ac ymglymwyd rhanddeiliaid allweddol i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Sefydlwyd y ffrydiau gwaith cysylltiol canlynol gydag amcanion clir, fframiau amser a gofynion riportio i'w dilyn:<br><br>• Llais y Dysgwr<br>• Data a Gwerthuso<br>• Cymorth Arbenigol<br>• Hyfforddiant a Datblygiad |

| | |
|---|---|
| | Sefydlwyd trefn lywodraethol a chyflogwyd rheolwr prosiect i gynorthwyo cynnydd a gofynion riportio, gan gynnwys riportio allanol i CAUUC.<br><br>Hefyd, adolygwyd nifer o bolisïau allweddol perthnasol i fyfyrwyr a'u gwella yn 2021-22 (Amgylchiadau Lliniarol ac Addasrwydd i Astudio) gan wneud y prosesau yn fwy hygyrch a chynnig lefelau gwell o gymorth i fyfyrwyr.<br><br>Sefydlwyd Tîm Cadw yn 2021 gyda'r bwriad o weithio gyda myfyrwyr sydd ddim yn mynychu'r brifysgol nac yn cyrchu cymorth Gwasanaethau Myfyrwyr ar yr adeg honno. Y ail uchaf o ran y nifer a atgyfeiriwyd o'r Tîm Cadw oedd i'r Gwasanaeth Llesiant ar gyfer cymorth iechyd meddwl. Gweithiodd y tîm hwn gyda thros 350 o fyfyrwyr yn 2021.<br><br>Ym mis Hydref 2021, fel rhan o drefn newydd busnes Pwyllgor EDI, cyflwynodd Gwasanaethau Myfyrwyr adroddiad Gwasanaethau Myfyrwyr a Chyflogadwyedd EDI. Dadelfennodd yr adroddiad yr ymglymiad gyda Gwasanaethau Myfyrwyr fesul gwahanol grwpiau a chaniatáu i gamau gweithredu dilynol gael eu datblygu.<br><br>**Llesiant Staff**<br>Mae'r Tîm Gwasanaethau Pobl wedi parhau i ystyried hyfforddiant ac adnoddau perthnasol er mwyn cynorthwyo staff. Yn 2021/22 recriwtwyd Partner Datblygu Sefydliadol (OD) (Llesiant) yn mis Mai 2021, lansiwyd Rhaglen Cymorth i Weithwyr Staff (EAP). Caiff yr EAP a'r 'app' cysylltiol eu hymgorffori o fewn y sefydlu corfforaethol.<br><br>Mae rhaglen reoli hanfodol 'Manage@Met' yn parhau i gael ei chyflwyno ac mae'n cynnwys dau fodiwl llesiant ar gyfer rheolwyr: Rôl rheolwyr wrth Gynorthwyo Llesiant, ac 'i-act' Deall a Hyrwyddo Iechyd Meddwl Positif a Llesiant ar gyfer Rheolwyr (lansiwyd Mawrth 2021). Mae 'i-act' ar gyfer cydweithwyr ar gael i'r holl staff ac mae tudalen llesiant ar 'Insite' wedi'i datblygu i gasglu adnoddau a chyfarwyddyd. Mynychodd 184 o reolwyr modiwl Rôl Rheolwyr wrth Gynorthwyo Llesiant, tra bod 65 wedi mynychu'r sesiynau "i-act". |

| | |
|---|---|
| t<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>• Parhau i weithredu arolwg dwyflynyddol iechyd a llesiant staff | Yn ystod cyfnod 2021/22 fe wnaeth y Brifysgol wella ei darpariaeth llesiant drwy newid ei darparwr Iechyd Galwedigaethol.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliodd y Brifysgol Wythnos Llesiant Gaeaf; wythnos wedi'i neilltuo i gynorthwyo a gwella llesiant staff drwy gydol misoedd y gaeaf. Roedd hyn yn cynnwys erthyglau yn codi ymwybyddiaeth o gynorthwyo diogelwch menywod, effaith y gaeaf ar yr henoed ac ar niwroamrywiaeth. Cyfeiriwyd staff at amrediad o sefydliadau oedd ar gael ac yn hygyrch dros gyfnod y gwyliau, roedd hyn yn cynnwys ein EAP a sefydliadau arbenigol.<br><br>Yn dilyn arolwg byr staff cyfan drwy 'Capita' yn Hydref 2020, cynhelir yr arolwg nesaf yn y cyfnod riportio nesaf a drefnir gan 'People Insight'. |
| • Datblygu rhaglen cymorth a llesiant ar draws Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr | Drwy gydol 2021-22 gweithiodd aelodau Gwasanaeth Llesiant Met Caerdydd a'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ehangach gyda chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama a'r GIG i sefydlu MHULS (Gwasanaeth Cyswllt Prifysgol ar Iechyd Meddwl). Llwyddodd myfyrwyr Met Caerdydd i gyrchu cymorth gan dîm o staff y GIG (nyrsys iechyd meddwl) a'u cylch gorchwyl oedd helpu i drin myfyrwyr gyda phroblemau iechyd meddwl cymhleth hirdymor ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Mae myfyrwyr wedi gallu cwrdd aelodau o dimau MHULS ar gampws Llandaf a Chyncoed. |
| • Datblygu hyfforddiant ar gyfer staff ar ddiogelu myfyrwyr agored i niwed | Dim i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022 |
| | |

| | |
|---|---|
| • Datblygu rhaglen fywiog, gynhwysol i wella integreiddio rhwng myfyrwyr a staff cartref a rhyngwladol. | Mynychwyd rhaglen hyfforddi, er mwyn i staff i ddeall y problemau y mae mudwyr dan orfod yn y DU yn eu hwynebu, gan groestoriad o staff ar draws y brifysgol gan dderbyn adborth positif a diddordeb mewn hyfforddiant pellach.<br><br>Dim i'w riportio ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022 |
| • Cynnal cyfres o ddarlithoedd cyhoeddus blynyddol sy'n adeiladu ar ein cyfrifoldeb cymdeithasol i hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a hyblygrwydd a chyfrannu at drafod cyhoeddus ar ystod o bynciau. | Dychwelodd digwyddiad Wythnos Fyd—Eang i'r campws, gan ddenu ein myfyrwyr, staff a chymunedau i ymglymu ag amrywiaeth ddiwylliannol y brifysgol. |
| • Yn ystod y digwyddiad sy'n parhau am wythnos, dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ein staff a'n corff myfyrwyr i gynnwys ein cymuned er mwyn gwella ymwybyddiaeth o ddiwylliant a derbyn ac i helpu cyd-ddealltwriaeth. | |
| • Cynorthwyo a datblygu ein statws fel Prifysgol Nodded sy'n hygyrch ac yn croesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid. | Wedi cyflwyno cais am ail-achrediad fel Prifysgol Nodded ac ymrwymo i ymgorffori gweithgareddau nodded ar draws y brifysgol.<br>Lansio menter Grantiau byd-eang, annog staff a myfyrwyr i arwain prosiectau â thema nodded.<br>Ymrwymiad i groesawu, cyllido a chynorthwyo 2 gymrawd CARA ac addunedu £400,000 tuag at gynorthwyo myfyrwyr a chydweithwyr yn yr Wcráin. |

| | |
|---|---|
| • Atgyfnerthu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn ein cymuned fel rhan o'n statws fel Prifysgol Nodded.<br><br>• Llunio a gweithredu Polisi Diogelwch newydd ar gyfer y Brifysgol | Mae gan y Brifysgol bolisi ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed / Safeguarding: Protection of Children and Adults at Risk Policy. Mae sgôp y Polisi yn gyfyngedig i'n dyletswyddau sefydliadol o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed ac yn ceisio sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru / Wales Safeguarding Procedures.<br>I gynorthwyo'r Polisi Diogelu, enwebodd pob Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol Swyddog Diogelu Lleol a derbyniodd y rhain hyfforddiant ym maes diogelu plant<br><br>Mae Chwaraeon Met wedi datblygu eu gweithdrefnau a chanllawiau diogelu eu hunain, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Diogelu'r Brifysgol, i gynorthwyo eu gweithgareddau gyda phlant ar y Campws Agored. Mae'r rhain yn datblygu ac yn gweithredu'n dda ac yn ymwybodol o Bolisi'r Brifysgol ar Ddiogelu,<br><br>Cymeradwywyd polisi newydd a dull newydd o fynd ati o ran Derbyn Myfyrwyr o dan 18 oed ac mae'n egluro yn seiliedig yn y DU ar bob safbwynt y Brifysgol (h.y. dydyn ni ddim yn gweithredu *in loco parentis* a bod angen gwarcheidwad penodol ar bob myfyriwr o dan 18 oed). |

## Amcan 4: Arwain y ffordd fel Sefydliad a chyflogwr Addysg Uwch cynhwysol ac amrywiol

| **Camau gweithredu** | **Cynnydd Diweddaraf** |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| • Yn dilyn cyhoeddi ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ym mis Mawrth 2020, parhau i riportio yn unol ag argymhellion 'gov.uk' ar gyfer riportio yn flynyddol<br><br>• Sefydlu Tîm Cynllunio Camau Gweithredu Bwlch Cyflog (yn disodli Tîm Cynllunio Camau Gweithredu Bwlch Cyflog) sydd wedi ymroi i ddadansoddi data gweithlu a nodi, a gweithredu, camau priodol o ran ethnigrwydd, anabledd a rhywedd<br>• Ymestyn ein hadroddiad ar y Bwlch Cyflog i gynnwys Ethnigrwydd ac anabledd yn unol ag argymhellion gov.uk ar gyfer riportio | Mae'r Brifysgol wedi parhau i gyhoeddi ein hadroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn unol ag argymhellion y llywodraeth ac ar Borth Llywodraeth y DU o ran Bwlch Cyflog rhwng Rhywiau / UK Government Gender Pay Gap Portal.<br><br>Sefydlwyd Gweithgor Cynllunio Camau Gweithredu Bwlch Cyflog. Bydd y Gweithgor hwn yn dadansoddi data'r gweithlu a nodi camau gweithredu priodol o ran ethnigrwydd, anabledd a rhywedd ac yn darparu argymhellion yn uniongyrchol ar gyfer Pwyllgor EDI ac yna ar gyfer y Bwrdd Academaidd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Brifysgol megis, Gwasanaethau Pobl, y Tîm Cydraddoldeb a Rhwydwaith Menywod y Staff. |
| | |
| • Dadansoddi data recriwtio a'i gymharu â data lleol a chenedlaethol er mwyn canfod unrhyw grwpiau â nodweddion | Mae gwaith datblygu yn y maes hwn yn waith parhaus a chaiff ei ystyried yn rhan o brosiect ehangach i drawsnewid recriwtio. Ond, rydyn ni wedi dal ati i adolygu ein data recriwtio drwy ein gweithgor Athena SWAN a'n gweithgor Siarter Cydraddoldeb Hiliol. Caiff data ei gymharu ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol. |

| | |
|---|---|
| gwarchodedig heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Cynnal gweithgaredd i goladu adborth ansoddol ar rwystrau rhag gwneud cais i weithio ym Met Caerdydd ar draws pob nodwedd warchodedig a gweithredu camau i geisio dileu'r rhwystrau hynny.<br>• Defnyddio technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgyrchoedd recriwtio a denu talent nodedig o'r DU a thramor, yn targedu pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn benodol.<br>• Parhau i hyrwyddo a hysbysebu'r Brifysgol yn gyfartal yn y fersiynau Cymraeg a'r Saesneg.<br>• Hyfforddiant gorfodol ar ragfarn ddiarwybod ar gyfer yr holl staff sydd ynghlwm yn y gwaith recriwtio. | Mae'r Brifysgol wedi cychwyn gwaith ar ddatblygu ein brand recriwtio staff a gwella ein hysbysebion a llenyddiaeth recriwtio a'n gwefan recriwtio. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ein neges allweddol, y targedu penodol i ddenu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr.<br>Hysbysebir pob swydd yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>Mae Partneriaid Busnes AD yn briffio unrhyw reolwr newydd sydd yn ymwneud â recriwtio ac yn nodi'r gofyn am astudio'r modiwl rhagfarn ddiarwybod. Mae'r 'e-modiwl' ar ragfarn ddiarwybod wedi'i ymgorffori yn sesiwn y cwrs byr recriwtio (rhan o Manage@Met). |
| | |
| • Datblygu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb gynhwysfawr ar gyfer holl staff Met Caerdydd (e.e. hyfforddiant | **Modiwl Sefydlu EDI**<br>Yn ystod y cyfnod, mae'r tîm Cydraddoldeb wedi parhau i ddatblygu ac adolygu hyfforddiant sefydlu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sydd ar gael ar gyfer yr holl staff. |

| | |
|---|---|
| Rhagfarn Ddiarwybod, hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol, hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ayb.) | **<u>Rhaglen Manage@Met</u>**<br>Mae'r Brifysgol wedi datblygu Rhaglen Manage@Met sy'n gyfres hanfodol o sesiynau byr i wella'r gallu a chysondeb wrth reoli pobl ar draws Met Caerdydd. Mae'r rhaglen yn cynnwys 12 modiwl hanfodol a 2 fodiwl opsiynol, mae'r cyrsiau i gyd yn sesiynau byr yn amrywio o 1 i 3.5 awr. Mae'r rhaglen yn golygu uchafswm o 23.5 awr (26.5 awr yn cynnwys modiwlau opsiynol) o ddysgu i'w cwblhau dros 1 flwyddyn. Mae gofyn i bob aelod o staff sy'n rheoli llinell gwblhau'r hyfforddiant. Un o'r sesiynau y mae rhaid eu cwblhau ydy'r sesiwn 'Gwerthfawrogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth'. Mae'r sesiwn awr a hanner hon yn cynorthwyo rheolwyr i greu amgylchedd cynhwysol iddyn nhw ac aelodau eu tîm. Mae'r sesiwn hon yn ystyried y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol, ein dyletswyddau fel corff cyhoeddus; sbotio, atal, delio â bwlio ac aflonyddu a phwysigrwydd a manteision Asesu Effaith Cydraddoldeb.<br><br>**<u>Hyfforddiant ar Ragfarn Ddiarwybod</u>**<br>Lansiwyd modiwl hyfforddi Rhagfarn Ddiarwybod mewnol yn 2021-22. Bydd y cwrs yn cyflwyno staff i'r syniad o ragfarn ddiarwybod neu 'gudd' a sut y gall effeithio ar y gweithle. Bydd yn rhoi cyfle i'r staff ystyried sefyllfaoedd lle gallai eu rhagfarn ddiarwybod eu hunain effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau neu farnau gwrthrychol. Cyfeirir yr holl staff sy'n ymwneud â recriwtio a dethol at yr hyfforddiant hwn.<br><br>**<u>Hyfforddiant 'Union Black'</u>**<br>Lluniwyd y cwrs 6 awr hwn er mwyn i staff a myfyrwyr gynyddu eu dealltwriaeth o Hanes Pobl Dduon Prydeinig, hil a hiliaeth, a sut gall rhywun symud o fod yn ddi-hiliol i fod yn wrth-hiliol. Bydd y cwrs yn helpu uwch arweinwyr, staff academaidd, staff y gwasanaethau proffesiynol a myfyrwyr i ddelio'n well â heriau o ran hil mewn mannau cymdeithasol, proffesiynol ac academaidd. Mae'r cwrs 'Union Black' yn unol â nod y Brifysgol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a hefyd yn unol â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb hiliol i sicrhau Cymru gwrth-hiliol erbyn 2030.<br><br>**<u>Hyfforddiant ar Atal (Prevent)</u>**<br>Diwygiwyd yr hyfforddiant hwn yn ystod 2021-22. Mae Mesur Gwrth-Derfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gofyn bod gan ystod o sefydliadau yn cynnwys Prifysgolion ddarpariaethau ac ymyriadau wedi'u hymgorffori yn eu harferion gwaith er mwyn amddiffyn myfyriwr a staff rhag bygythiad ideoleg radical sy'n hyrwyddo trais a |

| | |
|---|---|
| | therfysgaeth. Mae'r modiwl 'e-ddysgu' hwn yn helpu staff i ddeall gofynion sylfaenol y Ddeddf fel maen nhw'n berthnasol i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.<br><br>**<u>Dysgu Cymraeg</u>**<br>Cynigiwyd hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob rhan o'r Brifysgol gan yr Uned Gymraeg a chyflenwyd hyn i'r rhan fwyaf o'r Brifysgol.<br><br>Cynigir ystod o weithgareddau atodol hefyd yn rhad ac am ddim i ddysgwyr Cymraeg gan gynnwys sesiynau wythnosol 'sgwrs a phaned', seminarau rheolaidd a digwyddiadau cymdeithasol a grŵp darllen deunydd y wasg. Mae pob dysgwr yn cael cyfle i ymgymryd â Phrosiect Personol 'Cymraeg Gwaith' yn ystod y flwyddyn academaidd, lle maen nhw'n gweithio ar wella defnydd, gwelededd neu ddealltwriaeth o'r Gymraeg yn eu gweithle penodol eu hunain.<br><br>Caiff pob dysgwr y cyfle i sefyll cymwysterau CBAC 'Defnyddio'r Gymraeg' ar yr adeg berthnasol ac maen nhw'n cael eu cynorthwyo gyda sesiynau adolygu ychwanegol a sesiynau paratoi ar gyfer arholiad. Mae'r brifysgol yn cynnal cynllun gwobrwyo 'Dysgwyr y Flwyddyn' er mwyn annog dysgwyr ar draws ystod o feini prawf megis presenoldeb, gwelliant, cyfraniad arbennig, rhugledd a phrosiect personol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn cynorthwyo staff academaidd sydd â'r potensial i ddatblygu eu sgiliau addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda mentora 1-i-1 a chymorth gwella iaith. |
| • Parhau i ganolbwyntio ar ein rhaglen llwyddiannus o hyfforddiant o Ddarllenydd i Athro | Yn dilyn seibiant byr ar ddechrau cyfnod y pandemig, ail-gychwynnodd Setiau Dysgu Camau Gweithredu ym mis Gorffennaf 2020 ac maen nhw wedi parhau dair gwaith y flwyddyn ers hynny, ar-lein yn bennaf ond yn gynyddol wyneb yn wyneb yn ogystal. Ail-gychwynnodd y gyfres o ddarlithoedd gan ferched ysbrydoledig ym mis Rhagfyr 2020, gyda sgwrs gan yr Is Ganghellor, Yr Athro Cara Aitchison, ac ers hynny mae'r grŵp wedi clywed gan yr Athro Tracy Bhamra, Y Fonesig Rachel Cooper, Kerstin Mey a Hilary Lappin-Scott ymhlith eraill. |

| | |
|---|---|
| • Parhau i weithredu a datblygu cynllun mentora i gefnogi cydweithwyr llai profiadol gyda ffocws penodol ar unigolion gyda nodweddion gwarchodedig. | Mae’r adborth o Setiau Dysgu Camau Gweithredu a phresenoldeb yn y setiau yn parhau i fod yn ardderchog ac mae’r grŵp erbyn hyn bron yn gryf o fan cychwyn o tua 15 aelod. Mae’r Setiau Dysgu wedi cynyddu ein canran o ferched mewn swyddi Athro o fod lawer yn is na meincnod HESA nawr i fod yn sylweddol uwch na’r meincnod gyda’r canlyniad bod mwy o ferched na dynion yn dilyn darpar-yrfa fel Darllenydd, sef tua 2 ferch am bob un dyn.<br><br>Diweddarwyd llwyfan mentora’r Brifysgol a bydd y camau gweithredu nesaf yn ystyried dyrchafiad/ argaeledd mentoriaid yn benodol i gynorthwyo staff â nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn hefyd yn ystyried y gwaith parhaus sy’n berthnasol i Siarter Athena SWAN a'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol.<br><br>Yn ystod y cyfnod riportio cyfredol, lansiodd y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd gyfres o sgyrsiau amser cinio gyrfaol misol dan y teitl “Sut des i’n…”. Mae’r sgyrsiau hyn yn cynnwys croestoriad o’n Hathrawon yn rhannu eu profiadau yn eu gyrfaoedd yn cynnwys y modd y nodon nhw eu targedau a rhai o'r sialensiau oedd yn eu hwynebu a’u dull o'u taclo er mwyn datblygu eu gyrfaoedd yn llwyddiannus hyd at y cyfnod cyfredol. |
| | |
| • Cynnig cynllun gweithredu Athena SWAN Sefydliadol gyda'r bwriad o wneud cais am y Tlws Arian erbyn Tachwedd 2023<br><br>• Sefydlu rhaglen i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb hiliol gyda'r bwriad o wneud cais am Nod Siarter | Mae’r brifysgol wedi parhau i roi cynllun gweithredu lefel Efydd Athena SWAN ar waith ar ôl llwyddo i adnewyddu’r Efydd ym mis Chwefror 2020. Trosglwyddwyd y cynllun gweithredu i mewn i Microsoft Teams er mwyn symleiddio’r broses o reoli camau gweithredu. Bydd y Brifysgol yn ail wneud cais am achrediad ym mis Mai 2024.<br><br>Ym mis Tachwedd 2020, cyflwynodd Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd eu cais am ddyfarniad Adrannol cyntaf ar lefel Efydd. Dyfarnwyd hyn ym mis Mai 2021.<br><br>Ym mis Ebrill 2021, daeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn aelod o'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol. Drwy ein Gweithgor Cydraddoldeb Hiliol, mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio o tuag at gais yn 2023. Mae’r Nod yn |

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb Hiliol<br><br>• Parhau gyda'n taith Hyderus o ran Anabledd i gael ein dilysu'n Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. | cynnig strwythur trylwyr ar gyfer tywys ymdrechion prifysgolion i wella Cydraddoldeb Hiliol a chymorth i sefydliadau i gael gwell dealltwriaeth o hil, hiliaeth a'r modd y mae anghydraddoldebau yn amlygu eu hun ym maes Addysg Uwch.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn dal statws 'Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd' ar ôl ein hunan-asesiad. Roedd y dyfarniad hwn yn weithredol tan fis Medi 2022. Uchelgais Met Caerdydd ydy bod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd a bydd yn rhagweithio i symud tuag at y statws hwn. |